Cyfeirnod: ENF0988356

**DEDDF RHYDDID GWYBODAETH 2000 (ADRAN 52)**

**PWERAU GORFODI'R COMISIYNYDD GWYBODAETH**

# HYSBYSIAD GORFODI

**DYDDIEDIG: 9 Mai 2024**

**At: Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys**

**O: Blwch Post 99,**
**Llangynnwr,**
**Caerfyrddin,**
**Dyfed,**
**SA31 2PF**

1. Mae Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys ("HDP") yn "awdurdod cyhoeddus" a restrir yn Atodlen 1 i Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("y Ddeddf") ac a ddiffinnir gan adran 3(1)(a)(i) ohoni. Mae'r Ddeddf yn darparu mynediad cyhoeddus i wybodaeth sy’n cael ei dal gan awdurdodau cyhoeddus.

2. Mae rhwymedigaethau HDP fel awdurdod cyhoeddus o dan y Ddeddf yn cynnwys:

   a. Bod o dan rwymedigaeth i gyhoeddi gwybodaeth benodol am ei weithgareddau;

   b. Ymateb i geisiadau am wybodaeth gan aelodau o'r cyhoedd.

3. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth (y "Comisiynydd") drwy hyn yn dyroddi i HDP Hysbysiad Gorfodi (yr "Hysbysiad") o dan adran 52 o’r Ddeddf. Mae'r hysbysiad yn ymwneud â’r ffaith bod HDP:

   a. yn parhau i beidio â chydymffurfio ag adran 1(1) o’r Ddeddf;

   b. yn parhau i dorri adran 10(1) o’r Ddeddf.

4. Mae'r Hysbysiad hwn yn egluro penderfyniad y Comisiynydd i gymryd camau gorfodi. Mae'r camau penodol y mae'n ofynnol i HDP eu cymryd wedi'u nodi yn Atodiad 1.

**<u>Fframwaith Cyfreithiol yr Hysbysiad hwn</u>**

5. Mae gan berson sy'n gofyn am wybodaeth gan awdurdod cyhoeddus hawl, yn ddarostyngedig i esemptiadau, i gael ei hysbysu mewn ysgrifen gan yr awdurdod cyhoeddus a yw'r wybodaeth gan yr awdurdod cyhoeddus, ac i gael cyfleu'r wybodaeth iddo, os yw'r awdurdod cyhoeddus yn ei dal. Nodir hyn yn adran 1(1) o'r Ddeddf:

"(1) Any person making a request for information to a public authority is entitled –

(a) to be informed in writing by the public authority whether it holds information of the description specified in the request, and

(b) if that is the case, to have that information communicated to him."

6. Mae Adran 10(1) o'r Ddeddf yn pennu bod rhaid i awdurdodau cyhoeddus ymateb i geisiadau o fewn 20 diwrnod gwaith:

"… a public authority must comply with section 1(1) promptly and in any event not later than the twentieth working day following receipt."

7. Mae yna ddarpariaeth o dan y Ddeddf i awdurdod cyhoeddus hawlio estyniad rhesymol i'r terfyn hwn o dan amgylchiadau penodol ond, ym mhob achos, mae'n rhaid i'r awdurdod cyhoeddus roi ymateb ysgrifenedig i'r ymgeisydd o fewn y terfyn amser safonol ar gyfer cydymffurfio.

8. Mae gan y Comisiynydd bwerau amrywiol o dan y Ddeddf. Un o'r rhain yw dyroddi Hysbysiad Gorfodi. Mae adran 52(1) o'r Ddeddf yn dweud:

"If the Commissioner is satisfied that a public authority has failed to comply with any of the requirements of Part I, the Commissioner may serve the authority with a notice (in this Act referred to as ân "enforcement notice") requiring the authority to take within such

time as may be specified in the notice, such steps as may be so specified for complying with those requirements."

9. Mae Adran 52 o'r Ddeddf yn cael effaith yn ddarostyngedig i adran 53 o'r Ddeddf, sy'n rhoi manylion am yr eithriadau o'r ddyletswydd i gydymffurfio â hysbysiad penderfynu neu hysbysiad gorfodi.

**Y Cefndir**

10. Mae'r Comisiynydd yn adolygu Adroddiad Perfformiad a Monitro SARs (yr "Adroddiad") Uned Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data Cenedlaethol yr Heddlu ("NPFDU") yn rheolaidd, sef adroddiad a gyhoeddir ar wefan Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ("NPCC").

11. Dangosodd yr adroddiad fod HDP ym mis Awst 2022 wedi rhoi ymateb i 83% o'r ceiswyr o fewn yr amserlen statudol o dan y Ddeddf. Er hynny, gostyngodd y gyfradd gydymffurfio yn arwyddocaol wedyn a rhwng Ionawr a Gorffennaf 2023 roedd yn gyson o dan 50%. Yn benodol, roedd y gydymffurfiaeth yn 20% ym mis Ebrill 2023, 6% ym mis Mehefin 2023 a 36% ym mis Gorffennaf 2023.

12. Yn 2023, cafodd y Comisiynydd 13 o gwynion mewn perthynas â materion prydlondeb. Cafodd y rhain eu datrys yn anffurfiol pan gysylltodd y Comisiynydd ag HDP ac ni fu'n rhaid cymryd camau ffurfiol.

13. O ganlyniad, ysgrifennodd y Comisiynydd at HDP ym mis Hydref 2023 i gael gwybod pam roedd ei berfformiad mor anfoddhaol ac er mwyn deall yn well unrhyw ffactorau a allai fod yn effeithio ar allu HDP i gyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan y Ddeddf.

14. Mewn gohebiaeth ddilynol, esboniodd HDP fod rhai o'i ffigurau mor isel yn rhannol am nad oedd weithiau'n cofnodi ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth yn gywir. Mewn rhai achosion, roedd ceisiadau busnes fel arfer neu geisiadau annilys hefyd yn cael eu cynnwys yn y ffigurau. Waeth beth am y gwaith cadw cofnodion gwael, roedd y perfformiad yn ddi-os yn peri pryder.

15. Ym mis Tachwedd 2023, rhoddodd HDP ei resymau i'r Comisiynydd am ei anawsterau perfformiad, sef materion staffio yn bennaf a maint y gwaith. Yr Uned Datgelu yw'r tîm sy'n gyfrifol am brosesu ceisiadau o dan y Ddeddf ond mae hefyd yn gyfrifol am brosesu ceisiadau o dan ddeddfwriaeth Diogelu Data, Gorchmynion Llys, Diogelu, Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (CAFCASS) a'r Gwasanaeth Prawf. Mae ffocws wedi'i roi ar Orchmynion Llys ac achosion sydd â goblygiadau o ran diogelu, gan arwain at lai o gapasiti i brosesu ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

16. Mae'r Comisiynydd yn cydnabod bod HDP wedi bod yn rhagweithiol i raddau wrth fynd i'r afael â'r sefyllfa. Mae HDP wedi rhoi manylion i'r Comisiynydd am gamau sy'n cael eu cymryd ac mae wedi cadarnhau bod Grŵp Aur wedi'i sefydlu i reoli'r risgiau. Mae hyn yn cael ei arwain gan y Dirprwy Brif Gwnstabl. Nod y Grŵp Aur yw olrhain a gwerthuso risgiau o fewn y dagfa ceisiadau, gan sicrhau bod achosion sydd â'r risg uchaf yn cael blaenoriaeth a bod systemau effeithiol ar waith ar gyfer derbyn, dyrannu ac olrhain ceisiadau.

17. Ochr yn ochr â hyn, mae mesurau eraill wedi'u rhoi ar waith fel recriwtio Swyddog Cydymffurfio Diogelu Data a Swyddog Datgelu a oedd yn benodiad dros dro yn unig yn flaenorol. Mae staff yn yr Adran Rheoli Gwybodaeth a Chydymffurfio hefyd wedi cael cynnig cyfle i gynorthwyo gyda phrosesu ceisiadau.

18. Ym mis Chwefror 2024, rhoddodd HDP ddadansoddiad ystadegol i'r Comisiynydd o'i berfformiad. Fel yr oedd hi ar 6 Ionawr 2023, roedd yna dagfa o 46 o geisiadau yn unig. Cynyddodd hyn i 280 erbyn 8 Rhagfyr 2023, ac er bod hyn wedi gostwng i 196 erbyn mis Mawrth 2024, mae'n dal yn dagfa arwyddocaol.

## <u>Y Tor a'r Rhesymau dros yr Hysbysiad hwn</u>

19. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus roi gwybod i bobl a yw'n dal gwybodaeth y maent wedi gofyn amdani a'i chyfleu iddynt o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl i'w cais ddod i law.

20. Mae'r Comisiynydd yn derbyn mai adnoddau cyfyngedig yn unig sydd gan HDP ar gyfer prosesu ceisiadau o dan y Ddeddf. Mae hyn

yn broblem ar draws y sector cyhoeddus, ond mae'n arbennig o ddifrifol ymhlith heddluoedd gan fod rhaid i recriwtiaid newydd hefyd gael cliriad diogelwch – gan ymestyn y broses recriwtio.

21. Wedi dweud hynny, mae ymateb i geisiadau am wybodaeth yn ddyletswydd statudol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus roi gwybod i bobl a yw'n dal gwybodaeth y maent wedi gofyn amdani a'i chyfleu iddynt o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl cael eu cais.

22. Er bod materion eraill fel Gorchmynion Llys o bwys i HDP, nid yw hyn yn dileu'r ffaith y dylid ymdrin â cheisiadau o dan y Ddeddf mewn modd amserol o hyd, yn unol â'r ddeddfwriaeth. Dylai HDP gydnabod hyn a chydnabod goblygiadau cyfreithiol methu â gwneud hyn. Gallai HDP fod wedi cysylltu â'r Comisiynydd yn rhagweithiol i dynnu sylw at unrhyw broblemau yr oedd yn eu hwynebu a pha gamau yr oedd yn bwriadu eu cymryd i fynd i'r afael â hyn, gan ofyn am gyngor y Comisiynydd ynghylch a oedd hyn yn ddigonol.

23. Mae cyfradd cydymffurfio HDP dros y cyfnod a amlinellwyd yn annerbyniol.

24. Er gwaethaf rhoi'r Grŵp Aur ar waith ac er gwaethaf manylion y camau sy’n cael eu cymryd i wella’r gydymffurfiaeth, mae'r dagfa yn dal yn arwyddocaol. Heb newid sylweddol, ni fydd y dagfa honno’n cael ei chlirio neu o leiaf fydd cyfradd cydymffurfio HDP ddim yn cael ei chodi i lefel resymol.

25. O dan yr amgylchiadau, mae'r Comisiynydd o'r farn mai cam rheoleiddio cymesur yw dyroddi Hysbysiad Gorfodi sy'n ei gwneud yn ofynnol i HDP fynd i'r afael â'i dagfa o geisiadau hwyr.

26. Mae gosod dyddiad cau y gellir ei orfodi'n gyfreithiol yn egluro’r flaenoriaeth y mae'r Comisiynydd yn credu y dylid ei rhoi i'r dasg hon. Mae’r Comisiynydd wedi ystyried maint y dagfa ac amseriad yr hysbysiad hwn wrth osod yr amserlen y mae'n disgwyl gweld cydymffurfiaeth o’i mewn.

27. Mae'r Comisiynydd yn derbyn bod camau'n cael eu cymryd i wella’r gydymffurfiaeth ond mae hefyd o’r farn mai cam rheoleiddio cymesur yw ei gwneud yn ofynnol i HDP ddyfeisio a chyhoeddi

cynllun gweithredu, sy'n ffurfioli mesurau i liniaru oedi. I ategu’r cynllun gweithredu hwn dylid cael ymarfer 'gwersi a ddysgwyd', yn edrych ar achos gwreiddiol yr oedi yn y ceisiadau, o'u dyrannu drwodd i’w clirio yn y gwahanol gamau, gyda sylw penodol yn y cynllun i fesurau lliniaru ar gyfer unrhyw broblemau ailadroddus. Dylai HDP hefyd adolygu a gwella’i arferion cadw cofnodion i gofnodi'n well pryd y mae ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth wedi dod i law, er mwyn eu gwahanu oddi wrth ymholiadau safonol neu geisiadau annilys.

28. Mae'r Comisiynydd o'r farn y gallai HDP elwa o ddefnyddio ei becyn cymorth hunanasesu sydd wedi'i gynllunio i helpu awdurdodau cyhoeddus i asesu eu perfformiad rhyddid gwybodaeth presennol ac i ddarparu dangosyddion o ble y dylid canolbwyntio ymdrechion er mwyn gwella. Mae Pwnc 1 yn arbennig o berthnasol gan ei fod yn ymdrin â phrydlondeb.

## Telerau'r hysbysiad hwn

29. Gan hynny, mae'r Comisiynydd yn arfer ei bwerau o dan adran 52 o’r Ddeddf i gyflwyno Hysbysiad Gorfodi sy'n ei gwneud yn ofynnol i HDP gymryd camau penodedig i gydymffurfio â'r Ddeddf. Mae'r camau penodedig wedi'u nodi yn **Atodiad 1** i'r hysbysiad hwn.

30. Canlyniad methu â chydymffurfio â Hysbysiad Gorfodi yw y caiff y Comisiynydd roi ardystiad ysgrifenedig o'r ffaith honno i’r Uchel Lys yn unol ag adran 54 o’r Ddeddf. Ar ôl i’r Uchel Lys ystyried ac ymchwilio, gellir ymdrin ag HDP fel pe bai wedi cyflawni dirmyg llys.

## Yr hawl i apelio

31. Yn rhinwedd adran 57 o'r Ddeddf, mae yna hawl i apelio yn erbyn yr Hysbysiad hwn i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf (Hawliau Gwybodaeth). Os cyflwynir apêl yn erbyn yr Hysbysiad hwn, nid oes angen cydymffurfio ag ef hyd nes y ceir penderfynu neu y tynnir yr apêl honno'n ôl.

32. Mae gwybodaeth am y broses apelio ar gael oddi wrth:

First-tier Tribunal (Information Rights)

GRC & GRP Tribunals,
PO Box 9300,
LEICESTER,

Ffôn: 0203 9368963
Ebost: GRC@justice.gov.uk
Gwefan: www.justice.gov.uk/tribunals/general-regulatorychamber

33. Dylai unrhyw Hysbysiad Apelio gael ei gyflwyno i’r Tribiwnlys o fewn 28 diwrnod (calendr) ar ôl dyddiad anfon yr hysbysiad gorfodi hwn.

**Phillip Angell**
**Pennaeth Gwaith Achosion Rhyddid Gwybodaeth**
**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**
**Wycliffe House**
**Water Lane**
**Wilmslow**
**Cheshire**
**SK9 5AF**

**Atodiad 1**

## TELERAU'R HYSBYSIAD GORFODI

**MAE'R HYSBYSIAD HWN YN EI GWNEUD YN OFYNNOL I HDP GYMRYD Y CAMAU CANLYNOL ERBYN Y DYDDIADAU A BENNIR ISOD:**

**Erbyn 9 Tachwedd 2024 rhaid i HDP:**

(i) cydymffurfio ag adran 1(1)(a) o’r Ddeddf mewn perthynas â phob cais am wybodaeth pan fo'r ymateb y tu allan i 20 diwrnod gwaith fel ar ddyddiad yr hysbysiad hwn, a phan nad oes estyniad a ganiateir wedi'i ddefnyddio, ac os oes gwybodaeth o’r disgrifiad a bennir yn y cais yn cael ei dal:

(ii) naill ai cyfleu'r wybodaeth honno yn unol ag adran 1(1)(b) o’r Ddeddf neu ddyroddi hysbysiad gwrthod dilys o dan adran 17 o’r Ddeddf, oni bai bod adran 17(6) o’r Ddeddf yn gymwys.

**O fewn 30 diwrnod calendr ar ôl yr hysbysiad hwn, rhaid i HDP:**

(iii) llunio a chyhoeddi cynllun gweithredu yn ffurfioli'r mesurau y bydd yn eu cymryd i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau cyfreithiol o dan Ran 1 o’r Ddeddf i ymateb yn brydlon i geisiadau am wybodaeth, a hefyd clirio’i dagfa o geisiadau hwyr erbyn 30 Tachwedd 2024 fel sy'n ofynnol gan yr hysbysiad hwn.